General Medical Council

Adroddiad gwybodaeth obstetreg a gynaecoleg 2026

Crynodeb gweithredol

Pwrpas yr adroddiad hwn

Yn 2026, roedd 3,812 o feddygon wedi'u hyfforddi mewn swydd obstetreg a gynaecoleg yn y DU. Gan ddefnyddio pedair blynedd o ddata o'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol, arolwg ledled y DU sy'n cofnodi profiadau meddygon dan hyfforddiant a hyfforddwyr, mae'r papur gwybodaeth hwn yn edrych ar brofiadau'r meddygon hynny sy'n hyfforddi mewn swyddi Obstetreg a Gynaecoleg.* Wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun adolygiadau mamolaeth cenedlaethol diweddar, mae'n ystyried sut gall profiadau meddygon dan hyfforddiant gyfrannu at drafodaethau ehangach am ofal mamolaeth.

Prif ganfyddiadau

- **Mae pwysau ar y gweithlu yn dal yn her benodol ym maes Obstetreg a Gynaecoleg.** Nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg ddwysedd llwyth gwaith uwch, profiadau amlach o ddiffyg cwsg a risg uwch o orweithio na hyfforddeion ar draws pob arbenigedd. Nid oedd gwelliannau a welwyd yn y boblogaeth hyfforddi ehangach dros amser yn cael eu hadlewyrchu'n gyson i'r un graddau mewn Obstetreg a Gynaecoleg, gyda rhai bylchau'n ehangu yn hytrach na lleihau.
- **Mae gwahaniaethau'n parhau o fewn yr amgylchedd hyfforddi.** Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn llai cadarnhaol am amgylcheddau cefnogol, tegwch a pharch, ac yn dweud bod ganddynt lai o hyder wrth roi gwybod am ymddygiad gwahaniaethol neu ei herio. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg yn 2026 ac maent wedi parhau dros y pedair blynedd diwethaf.
- **Lefelau uwch o betruster neu bryder i uwchgyfeirio claf at glinigydd goruchwyliol.** Dywedodd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg eu bod yn fwy petrusgar na hyfforddeion ar

*Yn yr adroddiad hwn, mae 'meddygon dan hyfforddiant' a 'hyfforddeion' yn disgrifio meddygon cymwysedig sy'n dilyn hyfforddiant meddygol ôl-raddedig. Nid ydym wedi defnyddio'r term 'meddygon preswyl' oherwydd gall hyn hefyd gyfeirio at raddedigion nad ydynt mewn swydd hyfforddi ffurfiol.

draws pob arbenigedd ynghylch uwchgyfeirio claf at glinigydd goruchwyliol. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi bod yn bresennol ers i'r cwestiwn gael ei gyflwyno yn 2025 a'i ehangu yn 2026.

- **Profiadau cymysg o fynegi pryderon a dysgu sefydliadol.** Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd ynghylch agweddau ar roi gwybod am ddiogelwch cleifion, gan gynnwys ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a damweiniau a fu bron â digwydd, ac a oedd diwylliant o ddysgu o bryderon. Fodd bynnag, credai llai y byddai pryderon am addysg a hyfforddiant yn cael sylw, neu eu bod yn gwybod sut i uwchgyfeirio'r pryderon hyn pan nad oeddent yn cael sylw.
- **Profiadau cadarnhaol mewn sawl maes.** Nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg brofiadau cadarnhaol mewn sawl maes, gan gynnwys goruchwyliaeth glinigol a diwylliant gwaith amlddisgyblaethol.
- **Amrywiad mewn profiadau ym maes Obstetreg a Gynaecoleg.** Nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg benywaidd lai o brofiadau cadarnhaol na hyfforddeion gwrywaidd ar rai mesurau sy'n ymwneud â rhoi gwybod am wahaniaethu. Roedd gwahaniaethau hefyd yn amlwg yn ôl ethnigrwydd, rhwng gwledydd y DU ac ar lefel leol. Mae gan Obstetreg a Gynaecoleg weithlu sy'n fenywod, yn hŷn ac yn gymharol amrywiol yn bennaf, sy'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig deall yr amrywiad hwn a'i oblygiadau posibl o ran llesiant y gweithlu, cadw staff a chynaliadwyedd yr arbenigedd yn y dyfodol.

Beth mae'r canfyddiadau'n ei ddweud wrthym

Gan edrych ar ddata arolygon dros y pedair blynedd diwethaf, mae rhai o'r gwahaniaethau rhwng hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a'r boblogaeth hyfforddi ehangach wedi parhau dros amser. Mae hyn yn arbennig o amlwg lle nad yw'r gwelliannau a welwyd yn y cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd wedi cael eu hadlewyrchu i'r un graddau mewn Obstetreg a Gynaecoleg.

Mae gwahaniaethau ar draws sawl agwedd ar yr amgylchedd gweithio a dysgu hefyd yn awgrymu bod yr heriau a brofir gan hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn ymestyn y tu hwnt i lwyth gwaith yn unig. Roedd bylchau parhaus yn amlwg ar draws mesurau sy'n ymwneud ag amgylcheddau cefnogol, tegwch a pharch, codi llais, gwahaniaethu ac uwchgyfeirio. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai rhai agweddau ar brofiadau diwylliannol yn y gweithle fod yn llai cadarnhaol na'r rhai a adroddwyd ar draws y boblogaeth hyfforddeion ehangach.

Nid yw'r darlun yn gyson ar draws pob mesur neu amgylchedd hyfforddi. Nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg brofiadau cadarnhaol mewn sawl maes, gan gynnwys rhai agweddau ar roi gwybod am ddiogelwch cleifion a dysgu sefydliadol, tra gwelwyd llai o hyder wrth godi ac uwchgyfeirio pryderon ynghylch addysg a hyfforddiant. Roedd amrywiaeth hefyd ar lefel leol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd deall lle mae heriau'n cael eu crynhoi a lle gallai profiadau cadarnhaol ddarparu cyfleoedd i ddysgu o arferion da.

Goblygiadau

Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn berthnasol i drafodaethau cenedlaethol ehangach am ofal mamolaeth. Mae adolygiadau mamolaeth diweddar wedi cofnodi methiannau difrifol mewn gofal mamolaeth gyda chanlyniadau dinistriol i fenywod, babanod a'u teuluoedd, ac wedi tynnu sylw at faterion gan gynnwys pwysau ar y gweithlu, diwylliant, codi llais a dysgu sefydliadol. Mae'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol yn rhoi persbectif ychwanegol ar brofiad hyfforddeion ym maes Obstetreg a Gynaecoleg o'u hamgylcheddau hyfforddi a gweithio.

Mae parhad y gwahaniaethau o'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd mewn meysydd sy'n cynnwys llwyth gwaith, petruster i uwchgyfeirio ac amgylcheddau cefnogol yn haeddu sylw parhaus. Mae patrwm cyffredinol y canfyddiadau'n awgrymu bod rhai o'r heriau a wynebir gan hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn ymestyn y tu hwnt i bwysau'r gweithlu yn unig ac efallai eu bod yn adlewyrchu agweddau ehangach ar ddiwylliant y gweithle a diogelwch seicolegol mewn amgylcheddau hyfforddi, gan gynnwys hyder hyfforddeion i godi eu llais a chodi pryderon.

Dylai'r rheini sy'n gyfrifol am hyfforddiant Obstetreg a Gynaecoleg ystyried y canfyddiadau hyn ochr yn ochr â thystiolaeth arall sydd ar gael, archwilio beth allai fod yn sbarduno'r gwahaniaethau a nodwyd ac ystyried lle gallai fod angen cymryd camau pellach.

Darperir hyfforddiant a gofal yn yr un amgylcheddau. Er nad yw'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol yn mesur ansawdd na diogelwch gofal cleifion, gall profiadau meddygon dan hyfforddiant gynnig persbectif ychwanegol pwysig ar y diwylliannau a'r pwysau yn yr amgylcheddau hynny. Mae ffactorau fel amgylcheddau gwaith cefnogol, hyder i godi llais, uwchgyfeirio effeithiol a dysgu sefydliadol yn arbennig o berthnasol o ystyried eu pwysigrwydd i ofal diogel i gleifion a diogelwch cleifion. Gall deall lle mae heriau'n parhau, ochr yn ochr â lle mae profiadau mwy cadarnhaol yn cael eu hadrodd, helpu i lywio gwelliannau i hyfforddiant ac amgylcheddau gwaith. Gall y canfyddiadau hyn, yn eu tro, gyfrannu at ymdrechion ehangach i gryfhau diwylliannau yn y gweithle, cefnogi codi llais effeithiol a dysgu sefydliadol, a gwella'r amodau sy'n sail i ofal mamolaeth diogel o ansawdd uchel i fenywod a babanod.

Cefndir a diben

Pwrpas yr adroddiad gwybodaeth hwn

Mae adolygiadau diweddar Ockenden ac Amos o wasanaethau mamolaeth yn Lloegr wedi ysgogi trafodaethau cenedlaethol o'r newydd am yr amgylcheddau lle mae gofal mamolaeth yn cael ei roi. Drwy gofnodi methiannau difrifol mewn gofal mamolaeth, ochr yn ochr â phryderon sy'n ymwneud â phwysau'r gweithlu, diwylliant, arweinyddiaeth, anghydraddoldebau, codi llais a dysgu sefydliadol, mae'r adolygiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd deall amgylcheddau hyfforddi a dysgu meddygon dan hyfforddiant ym maes Obstetreg a Gynaecoleg.

Mae meddygon dan hyfforddiant yn cael profiad uniongyrchol o'r diwylliannau yn y gweithle a'r pwysau ar wasanaethau a amlygwyd gan yr adolygiadau mamolaeth, ac mae eu safbwyntiau'n cynnig cipolwg gwerthfawr ar y materion ehangach hyn.[Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd bedair blynedd o ddata Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol i edrych ar batrymau mewn hyfforddiant Obstetreg a Gynaecoleg dros amser, gan dynnu sylw at feysydd lle mae gwahaniaethau o'r

cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd wedi parhau. Er bod y data hyn eisoes wedi'u cyhoeddi yn ein hadroddiadau data addysg, mae'r ffocws cenedlaethol newydd ar wasanaethau mamolaeth yn gyfle pwysig i'w hystyried yn benodol drwy lens Obstetreg a Gynaecoleg, gan ddod â phrofiadau meddygon dan hyfforddiant i drafodaethau ehangach am wasanaethau mamolaeth a chefnogi ymgysylltu â'r rheini sy'n gyfrifol am hyfforddiant Obstetreg a Gynaecoleg. Mae cyfraddau ymateb ar gyfer hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn 2026 ar gael yn Atodiad 1.

Mae edrych ar draws pedair blynedd o ddata yn ein galluogi i symud y tu hwnt i giplun o brofiad presennol ac ystyried a yw gwahaniaethau rhwng Obstetreg a Gynaecoleg ac arbenigeddau eraill wedi parhau, wedi gwella neu wedi dod i'r amlwg dros amser. O ystyried y ffocws ar brofiadau hyfforddeion o ddiwylliant y gweithle a phwysau ar wasanaethau, mae'r papur hwn yn defnyddio data arolygon hyfforddeion yn unig. Gofynnir set o gwestiynau ar wahân i hyfforddwyr sy'n ymwneud â'u swydd fel goruchwylwyr clinigol neu addysgol.

Defnyddio data'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol

Mae'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol yn arolwg blynyddol ledled y DU o feddygon dan hyfforddiant a hyfforddwyr. Mae'n chwarae rhan hollbwysig o ran ein helpu i sicrhau bod meddygon dan hyfforddiant yn cael addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel mewn amgylcheddau clinigol diogel ac effeithiol. Mae meddygon dan hyfforddiant a'u hyfforddwyr yn rhannu adborth ar eu hyfforddiant a'u hamgylcheddau gwaith. Mae hyn yn rhoi'r data sydd ei angen arnom i nodi meysydd i'w gwella ac i dynnu sylw at arferion da, ac mae'n ein galluogi i asesu sut mae pob lleoliad ac arbenigedd yn gweithredu'r safonau a amlinellir yn y canllaw *Promoting excellence*. (dogfen Saesneg yn unig)


Canfyddiadau lefel uchel

Sgoriau is o ran ansawdd addysg a hyfforddiant

Er gwaethaf amgylchiadau heriol, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn dal i roi sgôr gadarnhaol i elfennau craidd eu hyfforddiant ôl-raddedig yn 2026 (gweler Ffigurau 1 i 4). Fodd bynnag, roedd eu sgoriau'n gyson is na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd, yn fwyaf nodedig o ran ansawdd yr addysgu (14 pwynt canran yn is) ac ansawdd y profiad (7 pwynt canran yn is). O'i gymharu â 2025, gostyngodd sgoriau cadarnhaol ar gyfer ansawdd y cynefino, goruchwyliaeth glinigol a phrofiad 1 pwynt canran yr un, a gostyngodd y sgoriau ar gyfer ansawdd yr addysgu 3 phwynt canran.

Mae'r data hydredol hefyd yn tynnu sylw at wahaniaeth cynyddol rhwng profiadau hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a phrofiadau hyfforddeion ar draws pob arbenigedd. Er bod y sgoriau ar draws pob arbenigedd wedi gwella'n raddol ers 2023, nid yw'r duedd hon wedi cael ei hadlewyrchu'n gyson ym maes Obstetreg a Gynaecoleg, lle mae'r sgoriau ar gyfer ansawdd yr addysgu ac ansawdd y profiad wedi gostwng dros yr un cyfnod.

Ffigurau 1 i 4: Sgoriau cadarnhaol ar fesurau ansawdd addysg a hyfforddiant rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd




Mwy o bwysau ar y gweithlu

Mwy o lwyth gwaith

Nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg bwysau llawer mwy ar lwyth gwaith na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd yn 2026 (gweler Ffigurau 5 a 6). Roedd cyfran uwch o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn dweud bod dwysedd eu llwyth gwaith yn ystod y dydd yn drwm neu'n drwm iawn (22 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd), ac yn dweud bod eu patrwm gwaith yn achosi diffyg cwsg bob dydd neu bob wythnos (9 pwynt canran yn uwch).

Rhwng 2023 a 2026, gostyngodd y ddau fesur llwyth gwaith ar draws pob arbenigedd yn gyffredinol. Dros yr un cyfnod, fodd bynnag, roedd cyfran yr hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a ddywedodd fod dwysedd eu llwyth gwaith yn drwm neu'n drwm iawn wedi cynyddu 1 pwynt canran bob blwyddyn.

Ffigurau 5 a 6: Ymatebion ar fesurau llwyth gwaith rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd




Perygl uwch o orweithio

Cyfrifwyd bod chwarter yr hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg mewn perygl uchel o orweithio yn 2026, a oedd 6 phwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd. Roedd 45% arall mewn risg ganolig, 3 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd. Yn gyffredinol, roedd 70% o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg mewn perygl cymedrol neu uchel o orweithio, o'i gymharu â 61% o hyfforddeion ar draws pob arbenigedd.

Ers 2023, mae'r bwlch mewn perygl o orweithio rhwng hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd wedi ehangu. Ymysg y rheini sydd mewn perygl uchel o orweithio, cynyddodd y bwlch o 2 bwynt canran yn 2023 i 6pc yn 2026. Dros y cyfnod hwn, gostyngodd y gyfran mewn perygl uchel 4 pwynt canran ar draws pob arbenigedd, a dychwelodd y gyfran Obstetreg a Gynaecoleg i'w lefel o 25% yn 2023. Gwelir patrwm tebyg ar gyfer risg ganolig neu uchel gyfun o orweithio, gyda'r gwahaniaeth yn cynyddu o 4 pwynt canran yn 2023 i 7 pwynt canran yn 2026.

Ffigurau 7 ac 8: Perygl o orweithio rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd




Canfyddiadau is o amgylcheddau hyfforddi cefnogol

Sgoriau is o amgylcheddau cefnogol

Yn nata eleni, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn gyson llai cadarnhaol am eu hamgylchedd o'u cymharu â hyfforddeion ar draws pob arbenigedd (gweler Ffigur 9). Yn benodol, dywedodd llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg na'r cyfartaledd fod eu hamgylchedd yn gwbl gefnogol (10 pwynt canran yn is), a bod eu hadran yn darparu amgylchedd cefnogol ni waeth beth fo'u cefndir, eu credoau na'u hunaniaeth (8 pwynt canran yn is). Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg hefyd 6 phwynt canran yn fwy tebygol o ddweud bod achosion o anfoesgarwch neu anghwrteisi wedi cael effaith negyddol ar eu profiad.

Ers 2023, mae cyfran yr hyfforddeion ar draws pob arbenigedd sy'n dweud bod eu hamgylchedd yn gefnogol wedi cynyddu ychydig, ac mae'r gyfran ymysg hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg wedi gostwng. Roedd y canlyniadau hefyd 1 pwynt canran yn is ar gyfer hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg o'i gymharu â 2025 o ran eu hadran yn darparu amgylchedd cefnogol beth bynnag fo'u cefndir, eu credoau neu eu hunaniaeth (81%). Dywedodd 21% (cynnydd o 1 pwynt canran ers 2025) fod digwyddiadau o anfoesgarwch neu anghwrteisi wedi cael effaith negyddol ar eu profiad.

Ffigur 9: Sgoriau cadarnhaol ar fesurau ansawdd addysg a hyfforddiant rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd




Canfyddiadau is o degwch a pharch

O'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer holl arbenigeddau 2026, nododd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg lawer llai o brofiadau cadarnhaol o degwch a pharch yn y gweithle (gweler Ffigurau 10 ac 11). Roedd y gyfran a ddywedodd fod staff bob amser yn cael eu trin yn deg 12 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd, ac roedd y gyfran a ddywedodd fod staff bob amser yn trin ei gilydd â pharch 9 pwynt canran yn is.

Gostyngodd y ddau fesur 2 bwynt canran ar gyfer hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg o'i gymharu â 2025, yn dilyn y cynnydd a welwyd yn 2024.

Ffigurau 10 ac 11: Sgoriau cadarnhaol ar fesurau ansawdd addysg a hyfforddiant rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd



Canfyddiadau cymysg o ddiwylliant a diogelwch seicolegol

Diwylliant gweithio amlddisgyblaethol cadarnhaol


Fe wnaethom ychwanegu cwestiwn newydd at yr arolwg yn 2026, gan ofyn i feddygon dan hyfforddiant a yw eu sefydliad yn annog diwylliant o ddysgu a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol amlddisgyblaethol. Ymatebodd y rhan fwyaf o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn (83%), yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd. Ar ben hynny, dywedodd naw o bob deg (89%, 1 pwynt canran o gynnydd ers 2025) o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg fod eu sefydliad yn annog diwylliant o waith tîm rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol amlddisgyblaethol. Mae hyn hefyd yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd.


Canfyddiadau cymysg o lywodraethiant addysgol

Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn cyfateb yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd ar rai agweddau ar lywodraethiant addysgol (gweler Ffigurau 12, 13 a 14). Dywedodd mwy na phedwar o bob pump eu bod yn gwybod sut, neu y gallen nhw ddarganfod sut, i godi pryder am eu haddysg a'u hyfforddiant, a oedd yn cyd-fynd â hyfforddeion ar draws pob arbenigedd.

Fodd bynnag, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn llai cadarnhaol am yr hyn sy'n digwydd ar ôl codi pryder. O'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd, roedd 6 phwynt canran yn llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn hyderus i uwchgyfeirio pryderon am addysg a hyfforddiant pe na baent yn cael sylw i ddechrau, ac roedd 10 pwynt canran yn llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn hyderus y byddai'r pryderon hyn yn cael sylw.

Ffigurau 12, 13 ac 14: Sgoriau cadarnhaol ar fesurau llywodraethiant addysgol rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd





Profi a rhoi gwybod am ymddygiadau gwahaniaethol

Llai o hyder wrth roi gwybod am wahaniaethu

Roedd gan hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg lai o hyder wrth roi gwybod am wahaniaethu a herio gwahaniaethu na hyfforddeion ar draws pob arbenigedd. Er bod 70% yn gwybod sut, neu'n gallu dod o hyd i sut, i roi gwybod am wahaniaethu (5 pwynt canran yn is), roeddent yn llai hyderus i roi gwybod am wahaniaethu heb ofni canlyniadau niweidiol (53%, 10 pwynt canran yn is) neu i herio gwahaniaethu ac ymddygiad amhroffesiynol (50%, 10 pwynt canran yn is).

Mae hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg wedi dod yn fwy cadarnhaol ar ddau o'r tri mesur hyn ers 2023. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn wedi cau'r bwlch â'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd. Mae'r bwlch o ran gwybod sut, neu allu dod o hyd i sut, i roi gwybod am wahaniaethu, ac yn gyfrinachol i roi gwybod am wahaniaethu heb ofni canlyniadau niweidiol, y naill a'r llall wedi ehangu 2 bwynt canran ers 2023. Nid oedd y gwahaniaeth mewn hyder i herio gwahaniaethu ac ymddygiad amhroffesiynol wedi newid dros y cyfnod hwn.

Llai o hyfforddeion yn ateb 'byth' i gwestiynau am ymddygiad gwahaniaethol

Yn nata arolwg eleni, dywedodd cyfran is o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad gwahaniaethol gan gydweithwyr ar draws nifer o fesurau, o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer pob arbenigedd (gweler Tabl 1). Y gwahaniaeth mwyaf oedd cael yr un mynediad at gyfleoedd hyfforddi, gyda'r gyfran sy'n dweud nad ydynt byth yn cael eu hamddifadu o'r un cyfleoedd hyfforddi â'u cyfoedion 11 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd.


O'i gymharu â 2023, roedd cyfran yr hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a ymatebodd 'byth' yn is yn 2026 ar bedwar o'r chwe mesur ymddygiad gwahaniaethol. Roedd y gwahaniaethau rhwng Obstetreg a Gynaecoleg a'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd hefyd wedi parhau dros amser, er bod y bwlch wedi lleihau ychydig ar un mesur ers 2023. I'r gwrthwyneb, mae hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg wedi nodi cyfran uwch o ymatebion 'byth' i'r cwestiwn ar ymddygiad rhywiol digroeso na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Tabl 1: Cyfran yr hyfforddeion sydd wedi ateb 'byth' i gwestiynau am ymddygiad gwahaniaethol, yn ôl Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd (newid o'i gymharu â 2025)

Mesur ymddygiad gwahaniaethol	Obstetreg a Gynaecoleg	Pob arbenigedd
Erioed wedi cael profiad o sarhau, stereoteipio na jôcs ar sail nodweddion gwarchodedig unigolyn	69% (yn 2025)	75% (↑1 pwynt canran)
Erioed wedi bod yn destun bychanu'n fwriadol o flaen pobl eraill	80% (↓1 pwynt canran)	87% (yn 2025)
Erioed wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio o sgyrsiau, grwpiau neu gyfarfodydd?	78% (↓1 pwynt canran)	84% (yn 2025)
Erioed wedi profi ymddygiad rhywiol digroeso	96% (yn 2025)	94% (↑1 pwynt canran)
Erioed wedi cael eu hamddifadu o'r un cyfleoedd hyfforddi â'u cyfoedion	70% (↓2 bwynt canran)	81% (↓1 pwynt canran)
Erioed wedi profi mân ymddygiadau ymosodol, sylwadau negyddol, neu iaith corff ormesol gan gyd-weithwyr.	63% (↑1 pwynt canran)	72% (yn 2025)

Petruso neu bryderu ynghylch uwchgyfeirio claf at glinigydd goruchwyliol

Ffigur 15: Y gyfran sydd wedi ateb "byth" gan deimlo'n betrusgar neu'n bryderus ynghylch uwchgyfeirio claf at y clinigydd goruchwyliol rhwng 2025 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd



Yn 2025, fe wnaethom gyflwyno cwestiwn newydd i ystyried pa mor aml mae meddygon dan hyfforddiant yn teimlo'n bryderus neu'n betrusgar ynghylch uwchgyfeirio claf at eu clinigydd goruchwyliol.

O'i gymharu â'r ffigur ar gyfer pob arbenigedd, dywedodd llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg nad oeddent byth yn teimlo'n bryderus nac yn betrusgar ynghylch uwchgyfeirio claf (gweler Ffigur 15) yn 2025 a 2026. Gwelwyd gwahaniaeth o 6 phwynt canran yn 2025, a gynyddodd i 10 pwynt canran yn 2026, oherwydd bod cyfran hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg wedi gostwng 4 pwynt canran yn nata arolwg eleni.


Mae'r canfyddiad hwn yn arbennig o nodedig o ystyried y pryderon a amlinellwyd mewn adolygiadau mamolaeth diweddar ynghylch pwysigrwydd creu amgylchedd lle mae staff yn teimlo'n hyderus wrth uwchgyfeirio pryderon a bod ganddynt lwybrau clir at gymorth uwch. Er nad yw data'r arolwg yn amlinellu achosiad, mae'r bwlch cynyddol yn dangos bod hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn fwyfwy tebygol na hyfforddeion yn gyffredinol o deimlo'n gyfforddus yn uwchgyfeirio claf yn eu gofal.


Systemau adrodd cadarnhaol a dysgu sefydliadol


Yn 2026, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg ychydig yn fwy cadarnhaol am systemau adrodd ar ddiogelwch cleifion na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd (gweler Ffigurau 16 i 19). Dywedodd bron i naw hyfforddai Obstetreg a Gynaecoleg o bob deg eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a damweiniau a fu bron â digwydd (2 bwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd), a dywedodd 82% eu bod yn gwrando'n rhagweithiol ar bryderon (5 pwynt canran yn uwch). Yn yr un modd, nododd 83% ddiwylliant o ddysgu gwersi o bryderon a godwyd (3 phwynt canran yn uwch). Fodd bynnag, roedd ychydig dros chwech o bob deg yn hyderus y byddai pryderon yn cael eu trin yn effeithiol, yn unol yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd (1 pwynt canran yn uwch).

Mae'r darlun cymharol gadarnhaol hwn wedi cael ei gynnal dros amser, gyda hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn nodi ymatebion mwy cadarnhaol na hyfforddeion ar draws pob arbenigedd ar y mesurau hyn ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod y canlyniadau pob arbenigedd wedi gwella ar bob mesur ers 2023, mae canlyniadau Obstetreg a Gynaecoleg wedi aros yn weddol sefydlog, gyda dim ond cynnydd bach yn yr hyder y byddai pryderon yn cael eu trin yn effeithiol.

Ffigurau 16 i 19: Sgoriau cadarnhaol ar systemau adrodd a dysgu sefydliadol rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd








Llai o gyfleoedd arweinyddiaeth a chymorth llai ffurfiol

Llai o gyfleoedd i arwain

Yn 2026, dywedodd 4 pwynt canran yn llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg eu bod yn cael mynediad at gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau arwain, o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer pob arbenigedd (gweler Ffigur 20).

Mae mynediad at y cyfleoedd hyn wedi aros yn is ymysg hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Er bod y bwlch wedi lleihau yn 2025, ehangodd eto yn 2026, gan ragori ar y gwahaniaeth a welwyd yn 2023.

Ffigur 20: Ymatebion cadarnhaol ar gyfleoedd i arwain rhwng 2023 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd



Mwy o gymorth mentora anffurfiol

Yn 2026, dywedodd ychydig yn llai o hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg nad oedd ganddynt unrhyw gefnogaeth mentor o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd (gweler Tabl 2).

Er bod lefelau cyffredinol o gymorth mentora felly'n debyg, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn fwy tebygol o gael cymorth anffurfiol (3 phwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd) ac yn llai tebygol o gael cymorth ffurfiol (3 phwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd).

Tabl 2: Ymatebion i'r math o gymorth mentora a gafodd ei ddefnyddio rhwng 2024 a 2026, gan Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd

Cymorth mentora	2024		2025		2026	
	O&G	**Pob hyfforddai**	**O&G**	**Pob hyfforddai**	**O&G**	**Pob hyfforddai**
Dim cefnogaeth gan fentor	54%	56%	55%	56%	54%	55%
Do - mentora anffurfiol gan glinigydd arall	23%	20%	23%	20%	23%	21%
Do - cymorth arall anffurfiol	9%	9%	10%	9%	10%	9%
Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nghyflogwr (ee ymddiriedolaeth neu safle gwaith)	10%	13%	12%	14%	12%	15%
Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nhîm deoniaeth/tîm rhanbarthol GIG Lloegr	11%	10%	10%	10%	10%	11%
Do - cynllun ffurfiol drwy fy nghyfadran neu fy ngholeg brenhinol	3%	2%	2%	2%	3%	2%
Do - cynllun ffurfiol drwy sefydliad arall	1%	1%	1%	1%	1%	1%

Amrywiad o fewn Obstetreg a Gynaecoleg

Cyd-destun y gweithlu

Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y gweithlu Obstetreg a Gynaecoleg. Mae data am y gweithlu a oedd yn sail i'n cyhoeddiad diweddar The state of medical education and practice in the UK (dogfen Saesneg yn unig) yn dangos bod Obstetreg a Gynaecoleg yn arbenigedd benywaidd, hŷn a chymharol amrywiol yn bennaf, gyda chyfran uwch o feddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol na'r gweithlu arbenigol yn gyffredinol. Mae'r patrwm hwn yn ymestyn i hyfforddeion, gyda 78% o ymatebwyr Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg yn fenywod, o'i gymharu â 57% o hyfforddeion yn gyffredinol. Mae nodweddion demograffig hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg a ymatebodd i'r Arolwg hwn ac ymatebwyr yr Arolwg ar draws pob arbenigedd ar gael yn Atodiad 2.

Mae ein data ehangach am y gweithlu hefyd yn dangos, er bod yr arbenigedd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bod nifer y meddygon sy'n gadael Obstetreg a Gynaecoleg wedi cynyddu, ac mae dadansoddiad diweddar yn awgrymu bod meddygon Obstetreg a Gynaecoleg benywaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn profi lefelau uwch o orweithio ar rai mesurau na'u cymheiriaid. Yn y cyd-destun hwn, mae deall yr amrywiaeth ym mhrofiadau hyfforddeion yn bwysig er mwyn nodi lle gallai grwpiau penodol wynebu mwy o heriau ac ystyried y goblygiadau posibl o ran llesiant, cadw a chynaliadwyedd y gweithlu.

Amrywiad ym mhrofiadau hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg

Roedd gwahaniaethau'n amlwg rhwng grwpiau demograffig yn 2026. Nododd hyfforddeion benywaidd lai o brofiadau cadarnhaol na hyfforddeion gwrywaidd ar ddau o'r tri mesur sy'n ymwneud â rhoi gwybod am wahaniaethu. Roedd hyfforddeion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig hefyd yn nodi llai o hyder na hyfforddeion o gefndir gwyn ynghylch gwybod sut i roi gwybod am wahaniaethu a gallu gwneud hynny heb ofni canlyniadau niweidiol, ochr yn ochr â llai o hyder ar fesurau sy'n ymwneud â chodi pryderon.

Roedd profiadau hefyd yn amrywio yn ôl gwlad yn y DU. O'i gymharu â chyfartaledd y DU, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yng Nghymru wedi nodi profiadau mwy cadarnhaol ar draws nifer o fesurau, gan gynnwys rhoi gwybod am wahaniaethu a sgoriau addysg a hyfforddiant. Soniodd hyfforddeion yng Ngogledd Iwerddon hefyd am brofiadau mwy cadarnhaol, gan gynnwys hyder y byddai pryderon yn cael eu trin yn effeithiol, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arwain, a chyfran uwch yn dweud nad oeddent erioed wedi teimlo'n betrusgar ynghylch uwchgyfeirio gofal cleifion at glinigwr goruchwyliol. Dywedodd cyfran fwy o hyfforddeion yn yr Alban nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad gwahaniaethol gan gydweithwyr ar draws nifer o fesurau na chyfartaledd Obstetreg a Gynaecoleg y DU.

Fodd bynnag, mae maint y samplau'n amrywio'n sylweddol yn ôl gwlad yn 2026. Roedd 109 o hyfforddeion yng Nghymru, 59 yng Ngogledd Iwerddon, 236 yn yr Alban a 2333 yn Lloegr. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cymariaethau yma.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos nad yw profiadau ar draws Obstetreg a Gynaecoleg yn unffurf, gyda gwahaniaethau i'w gweld yn ôl rhyw, ethnigrwydd a gwlad.

Mae deall ble ac i bwy mae profiadau cadarnhaol yn cael eu hadrodd yn arbennig o bwysig o ystyried proffil demograffig y gweithlu.

Ceir dadansoddiadau llawn yn ôl gwlad, rhyw ac ethnigrwydd yn Atodiadau 3 a 4.

Gwybodaeth a goblygiadau

Mae adolygiadau mamolaeth diweddar wedi cofnodi methiannau difrifol mewn gofal mamolaeth, ac wedi nodi pryderon sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch pwysau ar y gweithlu, diwylliant, codi llais, arweinyddiaeth a dysgu sefydliadol. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb ar draws y system gofal iechyd i chwarae eu rhan i fynd i'r afael â'r methiannau hyn, gan gynnwys cyflogwyr, rheoleiddwyr systemau a rheoleiddwyr proffesiynol fel y GMC.

Mae'r profiadau a nodwyd gan hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn rhoi cipolwg ar rai o'r agweddau hyn ar yr amgylcheddau lle maent yn dysgu ac yn rhoi gofal. Rhoddir hyfforddiant a gofal yn yr un amgylcheddau, sy'n golygu ei bod yn bwysig bod profiadau meddygon dan hyfforddiant yn rhan o ymdrechion ehangach i ddeall a gwella gwasanaethau mamolaeth. Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at bedwar canfyddiad allweddol.

- **Mae pwysau'r gweithlu yn parhau ar gyfer hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg.** Mae hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn parhau i brofi mwy o bwysau ar y gweithlu na hyfforddeion ar draws pob arbenigedd, gan gynnwys dwysedd llwyth gwaith uwch, diffyg cwsg yn amlach a mwy o berygl o orweithio. Mae'r gwahaniaethau hyn wedi parhau dros y pedair blynedd diwethaf, gyda gwelliannau ar draws y boblogaeth hyfforddi ehangach ddim bob amser yn cael eu hadlewyrchu i'r un graddau mewn Obstetreg a Gynaecoleg. Mae hyn yn gyson â dadansoddiad mewnol o ddata ein harolwg Baromedr 2025, a ganfu fod meddygon Obstetreg a Gynaecoleg yn cael mwy o anhawster cymryd seibiant oherwydd dwysedd llwyth gwaith, a'u bod yn fwy tebygol o wrthod llwyth gwaith ychwanegol oherwydd pwysau llwyth gwaith na'r cyfartaledd ar gyfer pob meddygon. Roedd y dadansoddiad mewnol hwn hefyd yn nodi heriau llwyth gwaith parhaus ymysg meddygon Obstetreg a Gynaecoleg iau. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd deall a mynd i'r afael â'r pwysau a brofir yn gynnar mewn gyrfaoedd Obstetreg a Gynaecoleg, yn enwedig lle gallai'r heriau hyn barhau y tu hwnt i hyfforddiant.
- **Mae heriau'n ymestyn y tu hwnt i bwysau'r gweithlu.** Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn llai cadarnhaol ar draws sawl agwedd ar yr amgylchedd hyfforddi, gan gynnwys yr amgylchedd cefnogol, tegwch a pharch, a nodwyd eu bod yn fwy petrusgar wrth uwchgyfeirio claf at glinigwr goruchwyliol. Roedd profiadau o ddatblygiad a chefnogaeth broffesiynol yn fwy cymysg, gyda chefnogaeth fentora fwy anffurfiol ond llai ffurfiol. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw heriau Obstetreg a Gynaecoleg wedi'u cyfyngu i bwysau ar y gweithlu yn unig a'u bod yn amlwg ar draws agweddau ehangach ar ddiwylliant y gweithle a diogelwch seicolegol, gan gynnwys hyder wrth geisio cymorth uwch. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y pwyslais a roddwyd ar ddiwylliant, arweinyddiaeth, codi llais ac uwchgyfeirio effeithiol mewn adolygiadau mamolaeth diweddar.
- **Darlun cymysg ynghylch codi pryderon a dysgu sefydliadol.** Roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd ar sawl agwedd ar

roi gwybod am ddiogelwch cleifion a dysgu sefydliadol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Cafodd y profiadau mwy cadarnhaol hyn eu cynnal dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn llai cadarnhaol ynghylch a fyddai pryderon am eu haddysg a'u hyfforddiant yn cael sylw neu sut i'w huwchgyfeirio pe na baent yn cael sylw. Roeddent hefyd yn dweud bod ganddynt lai o hyder i roi gwybod am ymddygiad gwahaniaethol a'i herio. Mae hyn yn awgrymu nad yw ymwybyddiaeth o brosesau adrodd o reidrwydd yn trosi'n hyder yn yr hyn sy'n digwydd pan fydd pryderon penodol yn cael eu codi neu pan fydd angen eu huwchgyfeirio.

- **Mae profiadau'n amrywio o fewn Obstetreg a Gynaecoleg.** Er bod y canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at batrymau pwysig ar draws yr arbenigedd, nid yw profiadau'n unffurf ar draws Obstetreg a Gynaecoleg. Roedd gwahaniaethau'n amlwg ar lefel leol, rhwng gwledydd y DU ac ar draws grwpiau demograffig. Dywedodd hyfforddeion benywaidd fod ganddynt lai o hyder na hyfforddeion gwrywaidd o ran rhoi gwybod am wahaniaethu heb ofni canlyniadau andwyol. Roedd gwahaniaethau yn ôl ethnigrwydd hefyd yn amlwg mewn profiadau o roi gwybod am wahaniaethu a chodi pryderon. O ystyried proffil unigryw'r gweithlu Obstetreg a Gynaecoleg, gall deall yr amrywiaeth ym mhrofiadau hyfforddeion arwain at oblygiadau pwysig o ran llesiant, cadw a chynaliadwyedd y gweithlu.

Sut rydym yn defnyddio data Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol

Rydyn ni'n defnyddio data'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol i wneud yn siŵr bod meddygon yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i roi gofal da a diogel i gleifion. Mae hyn yn ein helpu i nodi risgiau ac arferion da ar draws lleoliadau ac arbenigeddau, gyda chanlyniadau ar gyfer swyddi a rhaglenni unigol yn cael eu cymharu â grwpiau meincnod perthnasol. Pan nodir bod swydd neu raglen yn allanolyn is o'i gymharu â'r meincnod, rydym yn gweithio gyda'r rheini sy'n gyfrifol am hyfforddiant i ddeall y rhesymau dros hyn a'r camau sydd eu hangen mewn ymateb. Lle bo angen, efallai y byddwn hefyd yn defnyddio ein prosesau monitro manylach.

Mae data arolygon yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan gyrff addysg statudol, ymddiriedolaethau, byrddau a'n timau Sicrhau Ansawdd a Monitro Gwelliant. Mae ein cynghorwyr cyswllt hefyd yn defnyddio'r canfyddiadau wrth ymgysylltu â swyddogion cyfrifol, cyfarwyddwyr meddygol, deoniaid ôl-raddedig a rhanddeiliaid eraill. Roeddem hefyd wedi defnyddio data annhechnegol yn ein hadroddiadau ehangach i dynnu sylw at wahaniaethau rhwng arbenigeddau ac ar draws pedair gwlad y DU.

Mae ein defnydd o ddata'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol yn cyd-fynd â gwaith ehangach sydd eisoes ar y gweill i gryfhau ein hymateb i bryderon am wasanaethau mamolaeth ac ystyried sut gallwn ni gyfrannu at fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, yn Nottingham rydym wedi cryfhau ein hymgysylltiad â theuluoedd y mae pryderon mamolaeth yn effeithio arnynt, gan gynnwys drwy gyswllt mwy strwythuredig ac wedi'i deilwra, pwyntiau cyswllt unigol a hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma ar gyfer staff y GMC. Rydym hefyd wedi gwella gwybodaeth i deuluoedd ac eraill am sut i godi pryderon am ofal mamolaeth neu ofal newyddenedigol.

Y camau nesaf a chyfleoedd

Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan y dadansoddiad hwn wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac yn systemig. Mae gofal mamolaeth yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd amlbroffesiynol, felly bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am gydweithio ar draws sefydliadau a rheoleiddwyr, gyda gwahanol rannau o'r system yn cymryd yr awenau lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr hyfforddiant, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a phartneriaid eraill i ystyried beth mae'r canfyddiadau'n ei olygu i hyfforddiant Obstetreg a Gynaecolegwyr a lle gallai fod angen gweithredu cydlynol.

Byddwn ni'n defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio ein hymgysylltiad â'r rheini sy'n gyfrifol am hyfforddiant Obstetreg a Gynaecoleg, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae gwahaniaethau o'r cyfartaledd ar gyfer pob arbenigedd wedi parhau dros amser. Drwy'r ymgysylltu hwn, byddwn yn ceisio deall yn well y profiadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn nata'r arolwg, pa gamau sydd eisoes yn cael eu cymryd a lle gallai fod angen cymryd camau neu archwilio pellach.

Bydd ein rôl yn amrywio yn dibynnu ar y mater, gan adlewyrchu ein cylch gwaith rheoleiddio a'n cyfrifoldebau ar draws pob arbenigedd. Gall ein timau Allgymorth helpu i gysylltu'r canfyddiadau hyn â gwaith ehangach drwy eu hymgysylltiad ag arweinwyr meddygol a phartneriaid rheoleiddio rhanbarthol, a bydd angen i faterion y tu hwnt i'n cylch gwaith gael eu datblygu gan y sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ymateb.

Bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ledled y DU

Byddwn yn defnyddio ein rhan mewn gwaith gwella mamolaeth ledled y DU i sicrhau bod profiadau meddygon dan hyfforddiant yn sail i ymdrechion parhaus i wella gwasanaethau mamolaeth.

- Yng **Nghymru**, cafodd y GMC ei gynrychioli ar yr asesiad sicrwydd diweddar o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a bydd yn cyfrannu at y Grŵp Rhanddeiliaid Amenedigol newydd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, sy'n cael ei sefydlu mewn ymateb i'w ganfyddiadau.
- Yn **yr Alban**, mae'r adolygiad annibynnol o ofal mamolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gyfle arall i gyfrannu gwybodaeth ochr yn ochr â gwaith ehangach sy'n cael ei arwain drwy Dasglu Mamolaeth a Newyddenedigol Llywodraeth yr Alban.
- Yn **Lloegr**, bydd Tasglu Mamolaeth Cenedlaethol Llywodraeth y DU yn datblygu ac yn goruchwylio'r gwaith o roi cynllun gweithredu mamolaeth cenedlaethol ar waith, gyda chynrychiolaeth y GMC ar grŵp cyfeirio arbenigol i reoleiddwyr a chyrff ymchwilio.
- Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae'r Adran Iechyd wedi derbyn argymhellion gyda'r nod o wella diogelwch ac ansawdd gofal mamolaeth, gan gynnwys sefydlu Partneriaeth Ranbarthol Amlddisgyblaethol ar gyfer Mamau a Babanod Newydd-anedig. Fe wnawn ni rannu'r adroddiad gyda'r Adran Iechyd i gefnogi gwaith y grŵp.

Bydd ein hymgysylltiad â'r gwaith ehangach hwn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol sy'n deillio o'r dadansoddiad hwn:

- **deall** pam mae rhai hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn llai hyderus wrth geisio cymorth uwch neu godi pryderon, a beth y gellir ei ddysgu o amgylcheddau hyfforddi lle mae hyfforddeion yn rhoi gwybod am brofiadau mwy cadarnhaol
- **ystyried** y ffactorau sy'n cyfrannu at wahaniaethau parhaus yn y pwysau ar y gweithlu a'r amgylcheddau cefnogol mewn swyddi Obstetreg a Gynaecoleg, gan gynnwys pam nad yw gwelliannau ar draws y boblogaeth hyfforddi ehangach bob amser wedi cael eu hadlewyrchu i'r un graddau mewn Obstetreg a Gynaecoleg
- **dysgu** o amrywiaeth o fewn Obstetreg a Gynaecoleg, gan gynnwys profiadau mwy cadarnhaol mewn rhai gwledydd a lleoliadau a gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig, er mwyn deall yn well lle mae heriau'n cael eu crynhoi a lle gellid rhannu arferion da.

Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad yma a chanlyniadau'r Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol yn y dyfodol i feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r materion a nodwyd, dysgu o amgylcheddau hyfforddi cadarnhaol a chefnogi camau gweithredu ar y cyd i wella hyfforddiant ac amgylcheddau gwaith Obstetreg a Gynaecoleg. Mae cryfhau'r diwylliannau y mae meddygon yn hyfforddi ac yn gweithio ynddynt, gan gynnwys eu gallu i godi llais, dysgu a chael eu cefnogi, yn rhan bwysig o greu'r amodau ar gyfer gofal diogel o ansawdd uchel i fenywod a babanod.

Atodiadau

Atodiad 1: Ymatebion i'r arolwg

Eleni, cwblhaodd dros 2,700 o feddygon dan hyfforddiant mewn Obstetreg a Gynaecoleg yr arolwg (gweler Tabl 3). Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer hyfforddeion Obstetreg a Gynaecoleg yn uwch nag yn 2025 (72% ↑2 bwynt canran).

Tabl 3: Cyfraddau cwblhau Obstetreg a Gynaecoleg 2026 yn ôl gwlad (newid o'i gymharu â 2025)

	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Y DU
Hyfforddeion	72% (↑3 phwynt canran)	60% (↓11 pwynt canran)	71% (↑2 pwynt canran)	87% (↑2 bwynt canran)	**72% (↑2 bwynt canran)**
Nifer y meddygon	2,333	59	236	109	**2,737**

Atodiad 2: Data demograffig Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol 2026 yn ôl Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd

Tabl 4: Data demograffig Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol 2026, yn ôl Obstetreg a Gynaecoleg a phob arbenigedd

Demograffeg		Cyfran hyfforddeion	Cyfran pob hyfforddai
Oedran	Dan 25 oed	2%	7%
	25 i 29	32%	34%
	30 i 39	54%	51%
	40 oed neu hŷn	12%	8%
Rhywedd	Benyw	78%	57%
	Gwrywaidd	22%	43%
Ethnigrwydd	Cefndir ethnig lleiafrifol	53%	51%
	Cefndir gwyn	45%	46%

Atodiad 3: Data Obstetreg a Gynaecoleg 2026 yn ôl gwlad

Tabl 5: Data Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol 2026, yn ôl gwlad a phob hyfforddai Obstetreg a Gynaecoleg

Maes cwestiwn	Ffocws y cwestiwn	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Pob Obstetreg a Gynaecoleg
Bodlonrwydd (da/da iawn)	Cynefino	74%	76%	74%	79%	**74%**
	Addysgu	62%	66%	58%	71%	**62%**
	Goruchwyliaeth glinigol	83%	82%	89%	87%	**83%**
	Profiad	76%	75%	78%	86%	**77%**
Llwyth gwaith	Dwysedd (trwm/trwm iawn)	64%	58%	62%	63%	**64%**
	Diffyg cwsg (bob dydd/bob wythnos)	31%	31%	29%	31%	**31%**
Amgylchedd cefnogol (cytuno/cytuno'n gryf)	Sgorio'r amgylchedd fel un cefnogol	71%	74%	78%	75%	**71%**
	Cael eu trin yn deg	56%	63%	71%	64%	**58%**
	Trin ei gilydd â pharch	68%	73%	77%	75%	**69%**
Diogelwch seicolegol (cytuno/cytuno'n gryf)	Sut i godi pryderon am addysg a hyfforddiant	86%	87%	87%	86%	**86%**
	Yn hyderus y byddai sylw'n cael ei roi i bryderon am addysg a hyfforddiant	53%	63%	58%	59%	**53%**
	Sut i uwchgyfeirio pryderon am addysg a hyfforddiant	65%	70%	65%	74%	**65%**
Petruso cyn uwchgyfeirio (cyfran 'byth')	Erioed wedi bod yn betrusgar i uwchgyfeirio claf at y clinigydd goruchwyliol	68%	83%	74%	73%	**69%**
Ymddygiadau gwahaniaethol	Erioed wedi cael profiad o sarhau	68%	82%	73%	66%	**69%**

(cyfran ‘byth’)	Erioed wedi cael eu bychanu’n fwriadol	79%	79%	88%	89%	**80%**
	Erioed wedi cael eu hanwybyddu	78%	79%	82%	80%	**78%**
	Erioed wedi cael eu hamddifadu o’r un cyfleoedd	69%	76%	74%	69%	**70%**
	Erioed wedi profi mân ymddygiadau ymosodol	62%	64%	69%	62%	**63%**
Rhoi gwybod am wahaniaethu (cytuno/cytuno’n gryf)	Hyderus yn gwybod sut i roi gwybod am wahaniaethu	69%	76%	73%	87%	**70%**
	Yn hyderus wrth roi gwybod am wahaniaethu heb ganlyniadau andwyol	52%	52%	60%	64%	**53%**
	Hyderus i herio ymddygiad gwahaniaethol neu amhroffesiynol	50%	49%	53%	55%	**50%**
Arweinyddiaeth (cytuno/cytuno’n gryf)	Cael cyfleoedd i arwain	60%	78%	64%	69%	**61%**
Mentora	Dim cefnogaeth gan fentor	55%	49%	56%	45%	**54%**
	Do - mentora anffurfiol gan glinigydd arall	23%	20%	23%	34%	**23%**
	Do - cymorth arall anffurfiol	10%	17%	8%	14%	**10%**
	Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nghyflogwr (ee ymddiriedolaeth neu safle gwaith)	11%	15%	14%	10%	**12%**
	Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nhîm deoniaeth/tîm rhanbarthol GIG Lloegr	10%	14%	6%	9%	**10%**

	Ie - cynllun ffurfiol drwy fy nghyfadran neu fy ngholeg brenhinol	3%	2%	2%	4%	**3%**
	Ie - cynllun ffurfiol drwy sefydliad arall	1%	0%	2%	4%	**1%**
Systemau adrodd (cytuno/cytuno'n gryf)	Gwybod sut mae rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion	89%	88%	90%	89%	**89%**
	Diwylliant o fynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod am bryderon	82%	82%	82%	87%	**82%**
	Diwylliant o wersi a ddysgwyd o bryderon a godwyd	81%	87%	85%	86%	**82%**
	Hyderus bod pryderon yn cael eu trin yn effeithiol	62%	73%	62%	73%	**62%**
Gweithio amlddisgyblaethol (cytuno/cytuno'n gryf)	Diwylliant o ddysgu ar y cyd	83%	93%	83%	85%	**83%**
	Diwylliant o waith tîm	89%	90%	93%	95%	**89%**

Atodiad 4: Data Obstetreg a Gynaecoleg 2026 yn ôl ethnigrwydd a rhyw

Tabl 6: Data Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol 2026, yn ôl gwlad a phob hyfforddai Obstetreg a Gynaecoleg

Maes cwestiwn	Ffocws y cwestiwn	Hyfforddeion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig	Hyfforddeion o gefndir gwyn	Hyfforddeion gwrywaidd	Hyfforddeion benywaidd	Pob Obstetreg a Gynaecoleg
Bodlonrwydd (da/da iawn)	Cynefino	74%	74%	75%	74%	**74%**
	Addysgu	61%	64%	62%	63%	**62%**
	Goruchwylia eth glinigol	82%	86%	84%	84%	**83%**
	Profiad	74%	80%	77%	77%	**77%**
Llwyth gwaith	Dwysedd (trwm/trwm iawn)	69%	58%	62%	64%	**64%**
	Diffyg cwsg (bob dydd/bob wythnos)	31%	30%	28%	32%	**31%**
Amgylchedd cefnogol (cytuno/ cytuno'n gryf)	Sgorio'r amgylchedd fel un cefnogol	69%	74%	72%	71%	**71%**
	Cael eu trin yn deg	56%	62%	63%	58%	**58%**
	Trin ei gilydd â pharch	70%	68%	74%	69%	**69%**
Diogelwch seicolegol (cytuno/ cytuno'n gryf)	Sut i godi pryderon am addysg a hyfforddiant	83%	90%	86%	85%	**86%**
	Yn hyderus y byddai sylw'n cael ei roi i bryderon am addysg a hyfforddiant	54%	53%	61%	51%	**53%**
	Sut i uwchgyfeirio pryderon am addysg a hyfforddiant	64%	68%	72%	64%	**65%**

Petruso cyn uwchgyfeirio (cyfran byth)	Erioed wedi bod yn betrusgar i uwchgyfeirio claf at y clinigydd goruchwyliol	70%	68%	72%	69%	**69%**
Ymddygiadau gwahaniaethol (cyfran 'byth')	Erioed wedi cael profiad o sarhau	69%	68%	77%	67%	**69%**
	Erioed wedi cael eu bychanu'n fwriadol	78%	83%	83%	79%	**80%**
	Erioed wedi cael eu hanwybyddu	76%	81%	81%	77%	**78%**
	Erioed wedi cael eu hamddifadu o'r un cyfleoedd	65%	77%	70%	70%	**70%**
	Erioed wedi profi mân ymddygiadau ymosodol	59%	68%	65%	62%	**63%**
Rhoi gwybod am wahaniaethu (cytuno/ cytuno'n gryf)	Hyderus yn gwybod sut i roi gwybod am wahaniaethu	64%	79%	71%	70%	**70%**
	Yn hyderus wrth roi gwybod am wahaniaethu heb ganlyniadau andwyol	49%	58%	62%	52%	**53%**
	Hyderus i herio ymddygiad gwahaniaethol neu amhroffesiynol	47%	55%	63%	47%	**50%**
Arweinyddiaeth (cytuno/ cytuno'n gryf)	Cael cyfleoedd i arwain	46%	64%	59%	62%	**61%**

Mentora	Dim cefnogaeth gan fentor	55%	49%	50%	55%	**54%**
	Do - mentora anffurfiol gan glinigydd arall	27%	20%	26%	22%	**23%**
	Do - cymorth arall anffurfiol	13%	6%	9%	10%	**10%**
	Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nghyflogwr (ee ymddiriedolaeth neu safle gwaith)	15%	8%	14%	11%	**12%**
	Do - cynllun mentora ffurfiol drwy fy nhîm deoniaeth/tîm rhanbarthol GIG Lloegr	13%	6%	13%	9%	**10%**
	Do - cynllun ffurfiol drwy fy nghyfadran neu fy ngholeg brenhinol	4%	2%	3%	3%	**3%**
	Do - cynllun ffurfiol drwy sefydliad arall	1%	1%	1%	1%	**1%**
Systemau adrodd (cytuno/ cytuno'n gryf)	Gwybod sut mae rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion	86%	93%	86%	90%	**89%**
	Diwylliant o fynd ati'n rhagweithiol	80%	85%	79%	83%	**82%**

	i roi gwybod am bryderon					
	Diwylliant o wersi a ddysgwyd o bryderon a godwyd	82%	82%	80%	83%	**82%**
	Hyderus bod pryderon yn cael eu trin yn effeithiol	63%	62%	66%	61%	**62%**
Gweithio amlddisgyblaethol (cytuno/ cytuno'n gryf)	Diwylliant o ddysgu ar y cyd	82%	84%	83%	83%	**83%**
	Diwylliant o waith tîm	89%	91%	89%	90%	**89%**